Cyngor Fferyllol Cyffredinol



# Beth gallwch ei ddisgwyl wrth ddefnyddio fferyllfa?

**Dylech dderbyn gofal o ansawdd sy'n eich helpu i wella'ch iechyd a'ch lles.**

**Mae'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol yn gosod safonau ar gyfer fferyllfeydd i helpu i sicrhau bod hyn yn digwydd.**

## Mae gan y safonau hyn bum egwyddor.

### Dyma'r bum egwyddor a'r hyn maen nhw'n ei olygu i chi:

## 1

### Rhaid i'r fferyllfa gael ei rholi'n ddiogel ac yn effeithiol

- Rydych chi'n derbyn gwasanaethau diogel o ansawdd dda
- Gallwch fynegi pryderon am y fferyllfa, a byddwn yn gwrando o ddifri ar y pryderon hynny, ac yn gweithredu arnynt
- Mae trefniadau yswiriant priodol ar waith gan y fferyllfa i'ch amddiffyn os aiff pethau o le
- Mae gwybodaeth amdanoch yn cael ei chadw'n ddiogel i sicrhau eich preifatrwydd, cyfrinachedd ac urddas
- Os ydych yn agored i niwed, mae'r tîm fferyllol wedi derbyn yr hyfforddiant priodol ac yn gwybod beth sydd angen ei wneud i sicrhau eich bod yn cael eich amddiffyn

---

## 2

### Rhaid i'r staff sy'n gweithio yn y fferyllfa fod â gallu a rhaid iddynt allu cyflawni eu swyddi

- Mae digon o staff â'r sgiliau a'r hyfforddiant cywir i roi gofal diogel ac effeithiol i chi
- Bydd y staff wastad yn gweithredu er eich budd gorau chi
- Gall y staff roi llais i'w pryderon, a byddwn yn gwrando o ddifri ar y pryderon hyn, ac yn gweithredu arnynt

3

## Rhaid i safle'r fferyllfa fod yn addas at ddarparu gwasanaethau fferyllol

- Rydych yn derbyn gwasanaethau fferyllol mewn amgylchedd glân a diogel
- Gallwch siarad yn breifat â'r tîm fferyllol os yw'n well gennych wneud hynny



4

## Rhaid i'r fferyllfa ddarparu meddyginiaethau a gwasanaethau eraill yn ddiogel ac yn effeithiol

- Rydych yn derbyn meddyginiaethau sy'n ddiogel ac o ansawdd dda, ac yn derbyn unrhyw gyngor sydd ei angen arnoch o ran eu cymryd
- Rydych yn teimlo'n hyderus yn defnyddio unrhyw wasanaethau a gynigir gan y fferyllfa
- Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y fferyllfa yn hygyrch i chi

5

## Rhaid i offer a chyfleusterau'r fferyllfa fod yn ddiogel ac yn effeithiol

- Mae'r offer a'r cyfleusterau mae'r fferyllfa'n eu defnyddio i ddarparu ei gwasanaethau yn lân ac yn addas at eu diben
- Mae'r staff yn defnyddio'r offer a'r cyfleusterau i helpu i sicrhau eich bod yn derbyn gofal o ansawdd dda.

Mae'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol yn arolygu fferyllfeydd i wirio eu bod wedi cyrraedd y safonau. Ewch i **inspections.pharmacyregulation.org** i weld adroddiadau arolygu ac enghreifftiau o ymarfer da, a gwael.





# Beth gallwch ei ddisgwyl gan fferyllydd neu dechnegydd fferyllol sy'n gweithio yn y fferyllfa?

Rhaid i bob fferyllydd a thechnegydd fferyllol hefyd gyrraedd y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol sydd wedi eu gosod gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol. Mae naw safon, ac rydym wedi crynhoi'r hyn maen nhw'n ei olygu i chi isod.

## Rhaid i bob fferyllydd a thechnegydd fferyllol:

1. **roi gofal i chi sydd â phobl yn ganolog iddo**
2. **gweithio mewn partneriaeth â chi ac eraill sydd ynghlwm wrth eich gofal**
3. **cyfathrebu'n effeithiol gyda chi**
4. **cynnal, datblygu a defnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau proffesiynol**
5. **defnyddio'u crebwyll proffesiynol i weithredu er eich budd gorau chi**
6. **ymddwyn tuag atoch mewn ffordd broffesiynol**
7. **parchu a chynnal eich preifatrwydd a'ch cyfrinachedd**
8. **bod yn onest gyda chi ac ymddiheuro os aiff pethau o le**
9. **dangos arweiniad, yn cynnwys o ran pobl eraill sy'n gweithio yn y fferyllfa**

Siaradwch â'r tîm fferyllol os ydych yn anfodlon gyda'r gwasanaethau neu'r gofal a dderbyniwch, os gallwch. Gallwch hefyd ymweld â'n gwefan i ddarllen rhagor ynghylch sut i fynegi gofid am rywbeth: **www.pharmacyregulation.org**